Gwybodaeth i ymgeiswyr

Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac arholiadau/asesiadau

Er ein bod ni'n hoffi rhannu ein profiadau ar-lein, pan ddaw i arholiadau ac asesiadau eraill, mae'n rhaid i ni fod yn ofalus.

- Gallai rhannu syniadau ar-lein fod o gymorth wrth i chi astudio neu adolygu
- Fodd bynnag, gall rhannu gwybodaeth benodol (gweler y wybodaeth ar yr ochr dde) dorri'r rheolau a gallai effeithio ar eich canlyniadau
- Os nad ydych chi'n siŵr beth allwch chi ei drafod ac na allwch ei drafod ar-lein, gofynnwch i'ch athrawon
- Os ydych chi'n derbyn cynnwys arholiadau ar y cyfryngau cymdeithasol, rhaid i chi ddweud wrth eich athrawon
- Peidiwch â chael eich dal allan gan sgamwyr sy'n gwerthu papurau arholiad ffug



Pethau i'w gwneud ar y cyfryngau cymdeithasol:

- Cael hwyl
- Bod yn gyfrifol
- Rhoi gwybod i'ch athrawon am unrhyw gynnwys arholiad neu asesiad rydych chi'n ei weld

Pethau i beidio â'u gwneud ar y cyfryngau cymdeithasol:

- Prynu/gofyn am/rhannu cynnwys arholiadau neu asesiadau
- Rhannu sibrydion am gynnwys arholiadau neu asesiadau
- Rhannu eich gwaith
- Gweithio gydag eraill fel nad eich gwaith annibynnol eich hun yw eich asesiad

Os gwnewch chi unrhyw un o'r gweithgareddau uchod, efallai y byddwch chi'n:

- Derbyn rhybudd ysgrifenedig
- Colli marciau
- Cael eich diarddel o ran o'ch cymwysterau neu o'ch cymwysterau i gyd

Cymerwch eich amser i ymgyfarwyddo â rheolau'r CGC:

jcq.org.uk/exams-office/information-for-candidates-documents